

# Barod i Rentu: Symud Allan



## Symud Allan

Gall symud allan o eiddo fod yn adeg llawn tyndra, yn arbennig os ydych chi eisoes yn meddwl am y lle nesaf y byddwch chi'n symud i mewn iddo. Mae'r adnodd hwn yn cynnwys rhai camau syml y gallwch chi eu cymryd i wneud y broses hon mor syml a di-ffwdan â phosib

### Fis cyn symud allan:

- Gwiriwch eich cytundeb tenantiaeth am drefniadau ar gyfer symud allan a dychwelyd eich blaendal.
- Gall methu dilyn telerau'r cytundeb olygu oedi mewn cael eich blaendal yn ôl, neu arian wedi ei dynnu ohono.
- Gwnewch yn sicr eich bod yn gwybod pa gynllun blaendal sy'n dal eich arian.
- Dechreuwch feddwl am ailgylchu eitemau nad ydych bellach eu hangen, neu eu rhoi i elusen. Gall fod gan eich undeb/cymdeithas myfyrwyr neu eich awdurdod lleol wybodaeth am gynlluniau neu brosiectau ailgylchu yn eich ardal chi.

### Bythefnos cyn symud allan:

- Dechreuwch gynllunio amserlen gyda'ch cyd-letywyr ar gyfer glanhau'r eiddo. Cofiwch mai'r gegin a'r ystafell ymolchi fydd yn cymryd y mwyaf o amser i'w glanhau! Gwiriwch y manylion yn eich cytundeb tenantiaeth, er enghraifft os oes angen i chi ddadrewi'r oergell neu'r rhewgell, ailosod bylbiau golau neu dacluso'r ardd neu du allan yr eiddo (os oes lle o'r fath gennych).
- Rhowch wybod i bob sefydliad perthnasol eich bod chi'n symud tŷ; gallai hyn gynnwys eich banc, eich cwmni ffôn, y sefydliad rydych chi'n astudio ynddo, yr awdurdod lleol, unrhyw grwpiau, clybiau neu gymdeithasau rydych chi'n perthyn iddynt, eich meddyg teulu a'ch deintydd.



## Wythnos cyn symud allan:

- Gwiriwch eich rhestr eiddo unwaith eto a threfnwch archwiliad gyda'ch landlord/asiant cyn symud allan.
- Glanhewch yr eiddo'n drylwyr.
- Cysylltwch â'ch cyflenwyr dŵr, nwy a thrydan a rhowch wybod iddynt ba ddiwrnod fyddwch chi'n symud allan

## Diwrnod symud allan:

- Ewch â'ch eiddo personol i gyd ô'r tŷ, a chliriwch unrhyw ysbwriel sydd ar ôl.
- Tynnwch luniau o gyflwr y tŷ.
- Nodwch y rhifau ar bob mesurydd, a gofynnwch i'ch cwmni cyfleustodau am fil terfynol. Mae'n bosib y bydd angen i chi ddangos tystiolaeth o'r taliadau hyn i'ch landlord.
- Gwnewch yn sicr fod gennych chi gopiâu o bob dogfen ddefnyddiol (e-byst, lluniau, cytundeb tenantiaeth).
- Clowch y drws a dychwelwch yr allweddi i gyd.

## Rhwng pythefnos a mis ar ôl diwedd y denantiaeth:

- Ydych chi wedi clywed gan eich landlord ynglŷn â'ch blaendal? Ysgrifennwch atoch i ofyn am wybodaeth os naddo.
- Os yw eich landlord yn awgrymu cadw arian yn ôl, a'ch bod yn anghytuno â hynny, ceisiwch gyd-drafod â nhw mewn ysgrifen. Darparwch wybodaeth i gefnogi eich dadl, gan gynnwys eich cytundeb tenantiaeth, y rhestr eiddo, a'ch lluniau o'r eiddo ar ddechrau ac ar ddiwedd y denantiaeth.
- Siaradwch â'ch UM neu'ch canolfan gynghori leol os ydych chi angen help â'r broses.
- Os ydych chi'n canfod nad yw eich blaendal wedi'i warchod, mynnwch gyngor ynglŷn â beth i'w wneud gan eich UM, Shelter neu eich awdurdod lleol. Mae'n bosib eich bod yn gymwys i dderbyn iawndal os methodd eich landlord warchod eich blaendal.



### **Beth i'w wneud os ydych chi mewn anghydfod ynglŷn â'ch blaendal**

- Ysgrifennwch at eich landlord os nad ydych chi'n cael eich blaendal yn ôl o fewn 2-4 wythnos.
- Gwiriwch eich cytundeb tenantiaeth i weld beth all eich landlord ddal arian yn ôl ar ei gyfer.
- Gall hynny gynnwys:
  - Rhent heb ei dalu (gan gynnwys arian sy'n ddyledus gan gyd-denantiaid eraill)
  - Difrod i eiddo (ac eithrio traul teg yn sgil defnydd cyffredin bob-dydd).
  - Prynu eitemau yn lle rhai aeth ar goll
  - Glanhau
- Os nad ydych chi'n cytuno â rhai o'r taliadau hyn, ysgrifennwch at y landlord yn esbonio pam. Cyfeiriwch at eich cytundeb tenantiaeth ac unrhyw luniau, e-byst neu ddogfennau eraill sydd gennych.
- Os na allwch chi ddatrys yr anghydfod â'ch landlord, rhowch wybod i'r cynllun blaendal a dilynwch eu cyfarwyddiadau a gyfer codi anghydfod.
- Darllenwch ganllawiau'r cynllun ar gyfer delio ag anghydfod ar-lein am wybodaeth ynglŷn â pha dystiolaeth i'w darparu.
- Cofiwch fod rhaid i chi godi anghydfod o fewn tri mis i ddiwedd tenantiaeth.

